

# Uwch Weithiwr Cymdeithasol -Tîm Gofal Iechyd Meddwl Sylfaenol

## Portffolio: Y Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cyflog: £38,296 - £41,496

## Sail: Parhaol, 37 awr yr wythnos

## Lleoliad: Aston House, Glannau Dyfrdwy

Rydym yn dymuno penodi gweithiwr cymdeithasol cymwys â phrofiad

mewn iechyd meddwl i gefnogi ein Tîm Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol yn Sir y Fflint. Bydd rhaid i ymgeiswyr feddu ar o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso gan fod y rôl hon yn cynnwys cyflawni arferion gwaith cymdeithasol ar lefel mwy cymhleth, gan gynnwys asesiadau a rheoli risgiau yn briodol, a darparu goruchwyliaeth gwaith achos i aelodau eraill o'r tîm.

Yn Sir y Fflint, mae gennym enw da ym maes iechyd meddwl, ac mae hynny'n cynnwys ymgysylltiad da â defnyddwyr, gwaith partneriaeth trydydd sector, gwasanaethau darparwr gwych, defnydd creadigol o Daliadau Uniongyrchol, sefydlu mentrau cymdeithasol a hyrwyddo arfer arloesol.

Rôl y Gweithiwr Cymdeithasol yw gweithio mewn partneriaeth gyda phobl yn defnyddio'r gwasanaeth ac eraill i wella eu lles meddyliol a chyflawni eu canlyniadau a gytunwyd arnynt. Byddwch yn gweithio gyda thîm sefydlog o gydweithwyr cefnogol a phrofiadol o amrywiaeth o broffesiynau, ynghyd â rheolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r timau'n gweithio ar hyn o bryd yn adeiladau'r gwasanaeth Iechyd ac rydym yn cydweithio i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

Wedi cymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol ers o leiaf 3 blynedd, â phrofiad mewn iechyd meddwl

Parodrwydd i gymhwyso fel Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ddymunol i ymuno â'n rota rydym yn ei ddarparu ledled Sir y Fflint.

Gall ddangos ymrwymiad i egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Gall ddangos arferion arloesol a syniadau creadigol am hyrwyddo lles meddyliol

Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gyda phlant ac oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Rhian Evans, Rheolwr Tîm, Adnoddau Iechyd Meddwl
rhian.evans@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL